OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 Rhif 2427 (Cy.197)

# ANIFEILIAID, CYMRU

## IECHYD ANIFEILIAID

## Rheoliadau Milheintiau a Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2009

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *6 Medi 2009* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *7 Medi 2009* |
| *Yn dod i rym - -* | *28 Medi 2009* |

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 56(1) a (2) o Ddeddf Cyllid 1973(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy gan adran 59(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 1A o Atodlen 2 i Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**), a chyda chydsyniad y Trysorlys, yn gwneud y Rheoliadau canlynol.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth at ddiben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972, ac mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus i gyfeiriadau penodol at ddarpariaethau mewn offerynnau Cymunedol gael eu dehongli fel cyfeiriadau at y darpariaethau hynny fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd.

### Enwi, cymhwyso a chychwyn

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Milheintiau a Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2009. Maent yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 28 Medi 2009.

### Diwygio

**2.** Yn rheoliad 2 (Dehongli) o Reoliadau Milheintiau a Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) 2008 yn lle'r diffiniad o "samplau rheoli swyddogol" rhodder y diffiniad canlynol—

"ystyr "samplau rheoli swyddogol" ("*official control samples*") yw samplau a gymerir gan Weinidogion Cymru o dan unrhyw un o'r canlynol—

(a) pwynt 2.1.2.2 o'r Atodiad i Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1003/2005 sy'n gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 2160/2003 o ran targed Cymunedol ar gyfer gostwng nifer yr

(**1**) 1973 p.51.
(**2**) 1972 p.68; mewnosodwyd paragraff 1A gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p.51).

achosion o seroteipiau salmonela penodol mewn heidiau bridio o *Gallus gallus* ac yn diwygio Rheoliad (EC) Rhif 2160/2003(**3**), fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd;

(b) pwynt 2.1 o'r Atodiad i Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1168/2006 sy'n gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 2160/2003 o ran targed Cymunedol ar gyfer gostwng nifer yr achosion o seroteipiau salmonela penodol mewn heidiau dodwy o *Gallus gallus* ac yn diwygio Rheoliad (EC) Rhif 1003/2005(**4**), fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd; neu

(c) pwynt 1(b) ac (c) o'r Atodiad i Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 646/2007 sy'n gweithredu Rheoliad 2160/2003 o ran targed Cymunedol ar gyfer gostwng nifer yr achosion o seroteipiau salmonela penodol mewn heidiau o frwyliaid *Gallus gallus* ac yn diddymu Rheoliad (EC) Rhif 1091/2005(**5**), fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.”.

*Elin Jones*
Y Gweinidog dros Faterion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

6 Medi 2009

(**3**) OJ Rhif L 170, 1.7.2005, t.12, fel y'i diwygiwyd gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1168/2006 (OJ Rhif L 211, 1.8.2006, t.4).
(**4**) OJ Rhif L 211, 1.8.2006, t.4.
(**5**) OJ Rhif L 151, 13.6.2007, t.21.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn diwygio Rheoliadau Milheintiau a Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) 2008 (O.S. 2008/2716) (Cy. 245). Maent yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru godi ffioedd am gymryd, neu oruchwylio'r broses o gymryd, samplau swyddogol y mae'n ofynnol eu cymryd o dan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 646/2007.

Mae asesiad effaith rheoleiddiol o effaith y Rheoliadau hyn wedi'i baratoi a gellir cael copïau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.